Ysgol Caergeiliog Foundation School

'Persto et Praesto'

Established 1780

Incorporated the First Primary Grant Maintained School in April 1993.

Incorporated Foundation School April 1997.

Diweddariad Gwybodaeth
Gorffennaf 15fed 2021

Ysgol Haf
Mae gwybodaeth a ffurflenni archebu lle bellach wedi eu hanfon allan. Byddwch gystal â chofio y dylai'r holl ffurflenni gael eu cwblhau a'r taliad wedi ei wneud a'u dychwelyd erbyn dydd Gwener Gorffennaf 16eg.

Etholiad Llywodraethwr Ysgol
Dylai'r holl bapurau pleidleisio gael eu gyrru i'r ysgol erbyn 3:30 heddiw, dydd Iau Gorffennaf 15fed.

Gwisg Ysgol
Gallwch archebu Gwisg Ysgol trwy ddefnyddio'r ap Parentmail a bydd yr eitemau yn cael eu danfon i ddosbarth eich plentyn y diwrnod canlynol. Byddwn yn darparu dolen ichwi yn fuan fel y gallwch archebu yn uniongyrchol gan y cyflenwr a'u danfon i'ch cartref.Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i werthu siwmperi, tei a bagiau trwy gyfrwng Parentmail.

Gwyliau Ysgol
Bydd yr Ysgol yn cau ar gyfer Gwyliau'r Haf ddydd Mawrth Gorffennaf 20fed.Bydd disgwyl i'r disgyblion ddychwelyd i'r Ysgol ddydd Iau Medi 2il 2021.

Diwrnod Hyfforddiant mewn Swydd
Bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion dydd Gwener Hydref 22ain 2021.

Wythnos Hanner Tymor yr Hydref
Bydd yr ysgol ar gau am hanner tymor yr Hydref o ddydd Llun Hydref 25ain - dydd Gwener Hydref 29ain 2021

Taliadau
Gofynnir i rieni wirio unrhyw gyfrifon sydd ganddynt ar gyfer eu plant ar Parentmail gan sicrhau fod yr holl ddyledion am ginio/Clwb Brecwast/ Clwb Wedi Ysgol yn cael eu talu yn wythnosol yn arbennig gan ein bod yn agosáu at ddiwedd y Flwyddyn Ysgol.

Byddwn yn parhau i'ch hysbysu o unrhyw ddiweddariad, pryd ac fel ag y cawn wybodaeth am drefniadau ar gyfer Mis Medi ynglŷn â'r trefniant gollwng a chasglu plant a thrafnidiaeth.

Diolchwn i chwi am eich cefnogaeth barhaus trwy gydol blwyddyn anodd arall ac rydym am ddiolch yn arbennig i'r holl rieni sydd wedi mynegi eu gwerthfawrogiad o'r gwaith caled mae ein staff wedi bod yn ei wneud yn ystod y pandemig. Dymunwn haf dymunol iawn a diogel i chwi i gyd.

Yn gywir,

R Williams
Cyfarwyddwr Gweithredol